COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANGYNDEYRN A GYNHALIWYD AR 9fed o FAI 2016 YN SWYDDFA'R CYNGOR,NEUADD PONTIETS AM 7.30.YN DILYN Y CYFARFOD BLYNYDDOL

Presennol: Alan Lewis (yn y gadair),Geraint Rosser,Geoff Hewitt,Ian Evans,Tyssul Evans,Heddwyn Jones,Linda Williams,Margaret Rees,Aled Williams a'r Clerc,Glyndwr Prideaux

Ymddiheuriadau: Carrie Rees,Wendy Evans,Meic Bowen,Ellis Jenkins a Richard Thomas

Materion Personol

1422 Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd.

1423 Cofnodion
Derbyniwyd a llofnodwyd cofnodion y Cyfarfod diwethaf ar 04/04/2016 fel rhai cywir.

1424 Materion yn codi.

Tud. 1 Cofnod Rhif 1398 - Parcio Tacsis ym Mhontiets. – Arhoswn am ddyddiad y Cyfarfod safle gyda'r Cyngor Sir a'r Heddlu i drafod y mater ymhellach

Tud 3. Cofnod Rhif 1398 - Arwyddion Ceffylau yng Ngharwe – Parhawn i aros am yr arwyddion.

Tud 3. Cofnod Rhif 1398 - Cyflwr Cysodfannau yng Nghymuned Trimsaran - Aros am ymateb oddiwrth Cyngor Cymuned Trimsaran.

Cynghorwr Geraint Rosser yn datgan diddordeb,arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

1425 Cyflwyniad Shared Access

Wedi trafodaeth lwyr penderfynwyd y byddai'r Is-bwyllgor Cyllid yn cwrdd â dirprwyaeth o Glwb Rygbi Pontiets am 10.30 ar 16/05/16 yn Swyddfa'r Cyngor i drafod y mater ymhellach.

Geraint yn ail ymuno a'r cyfarfod.

Gohebiaeth

Ceisiadau am grant/cyfraniadau ariannol:-

1426 Seindorf Arian Crwbin- Llythyr yn diolch am y rhodd.

1427 Age Cymru Sir Gar – Llythyr yn diolch am y rhodd.

1428 Macmillan Cancer Support – Llythyr yn diolch am y rhodd.

Gohebiaeth gyffredinol :-

Cynghorwyr Tyssul Evans, Geraint Rosser, Aled Williams,Ian Evans yn datgan diddordeb,arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

1429 Ysgol y Gwynfryn -Derbyn cyfrifoldeb am Barc Gwynfryn - Penderfynwyd cynnal Cyfarfod Safle yn y Parc ar 16/05/16 i ystyried y mater ymhellach

Tyssul,Geraint,Aled a Ian yn ail ymuno a'r cyfarfod.

1430 Cyngor Sir Gar – Newid category iaith Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin - Nodwyd y llythyr.

1431 Cyngor Sir Gar - Dargyfeiriad Llwybr Cyhoeddus 30/4-32/13 Min yr Afon,Cwmisfael – Nodwyd y llythyr.

1432 Cyngor Sir Gar – Fforwm Cyswllt Sirol Cynghorau Cymuned a Thref, 24/05/16 – Nodwyd y llythyr.

Cynghorwyr Tyssul Evans, Geraint Rosser, Aled Williams,Ian Evans yn datgan diddordeb,arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

1433 Ysgol Carwe - Llythyron oddiwrth y Plant ynglŷn â phroblemau Baw Cwn yn y Pentref - Penderfynwyd danfon llythyr at y Cyngor Sir a'r Cynghorydd Jim Jones.

Tyssul,Geraint,Aled a Ian yn ail ymuno a'r cyfarfod.

1434 Cyngor Sir Gar – Cod Ymarfer Cynghorwyr – Nodwyd y llythyr,

Cynghorwyr Tyssul Evans, Geraint Rosser, Aled Williams,Ian Evans yn datgan diddordeb,arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

1435 Ysgol Carwe - Llythyron oddiwrth y Plant ynglŷn â diffyg offer chwarae yn y Parc - Penderfynwyd gofyn i Gwmni Wicksteed am amcangyfrif o'r gost.

Tyssul,Geraint,Aled a Ian yn ail ymuno a'r cyfarfod.

Ceisiadau Cynllunio

1436

Ceisiadau Cynllunio:

- Mr & Mrs Williams - 2,Ael y Bryn Carwe - Tŷ Newydd - Dim Gwrthwynebiad.
- Mr Evan Davies - Hen Swyddfa Bost, Meinciau- Tŷ a lle Parcio - Dim Gwrthwynebiad.
- Mr Ray Walley – 30,Tir Dafydd,Pontiets - Garej – Dim Gwrthwynebiad

Adroddiad o Daliadau a Threuliau'r mis

1437 Derbyniwyd adroddiad ariannol Mis Ebrill 2016.

Adroddiad Ariannol Misol

1438 Penderfynwyd bod y canlynol i'w dalu :-
a) Cyflog y Clerc - £371.25 (Mis Ebrill)
b) Ffon Tŷ'r Clerc - £25.00 (Mis Ebrill)
c) Cydnabyddiaeth y Syrfëwr - £97.52 (Mis Ebrill)
ch) HMRC (Treth)- £74.20 (Mis Ebrill)
d) Ffon Symudol y Cyngor - £9.98 (Mis Ebrill)
dd) Stampiau - £13.20
e) Cyfrifiadur Newydd - £583.49
f) Cyngor Sir Gar - Adolygu'r Parciau- £576.00
ff) Morgan,Morgan - Papur i'r Llungopïwr - £17.94
g)Roger Thomas – Archwiliwr Mewnol - £150.00

Tir yng Nghrwbin

1439 Derbyniwyd ymholiad oddiwrth Cwmni Harlequin ar ran BT Openreach ynglŷn â darn o dir ger Pennant,Crwbin er mwyn lleoli Bocs Bandllydan.Cadarnhawyd nad oedd y Tir ym meddiant y Cyngor Cymuned.

Heol i Fferm Tŷ Mawr,Carwe

1440 Derbyniwyd ymholiad oddiwrth Greg **a** Beth Williams,Fferm Tŷ Mawr yn holi a fyddai'r Cyngor yn barod i ystyried gosod arwyneb newydd ar yr heol i'r Fferm. Penderfynwyd cysylltu â Martin Murray o'r Cyngor Sir ynglŷn â'r mater.

Asesiad Risg Cyllidol

1441 Wedi trafodaeth lwyr a chlir, cynigwyd gan Heddwyn Jones ac eiliwyd gan Geoff Hewitt ein bod yn derbyn Adroddiad Asesiad Risg Cyllidol am y flwyddyn 2016/2017.

Rheolau Ariannol

1442 Wedi trafodaeth lwyr a chlir, cynigwyd gan Linda Williams ac eiliwyd gan Aled Williams ein bod yn derbyn Rheolau Ariannol am y flwyddyn 2016/2017.

Archwiliwr Mewnol 2016/2017

1443 Cynigwyd gan Heddwyn Jones ac eiliwyd gan Geoff Hewitt ein bod yn penodi Roger Thomas o Gasllwchwr fel ein Harchwiliwr Mewnol am y flwyddyn 2016/2017.

Datganiad Llywodraethau Blynyddol (Rhan 1)

1444 Cynigwyd gan Tyssul Evans ac eiliwyd gan Ian Evans ein bod yn derbyn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol (Rhan 1) am y flwyddyn 2015-16.

Datganiad Llywodraethau Blynyddol (Rhan 2)

1445 Cynigwyd gan Linda Williams ac eiliwyd gan Geraint Rosser ein bod yn derbyn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol (Rhan 2) am y flwyddyn 2015-16.

Cyfrifon y Cyngor a Datganiadau Cyfrifyddu 2015-16

1446 Cynigwyd gan Heddwyn Jones ac eiliwyd gan Margaret Rees ein bod yn derbyn y Cyfrifon am y flwyddyn 2015-16 fel y cyflwynwyd gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol.Diolchwyd i'r Clerc am ei waith yn y mater hwn.

Swyddfa'r Cyngor

1447 Penderfynwyd gosod lein Band Llydan yn Swyddfa'r Cyngor. Gofynwyd i'r Clerc i gwneud trefniadau gyda Cwmni BT.

Materion Cynghorwyr

1448 Linda - Cysylltu â Martin Murray ynglŷn â thorri'r cloddiau rhwng Heol Mansant/Heol Bancyroffis/Dwynant.

1449 Aled - Gofyn i'r Cyngor Sir ynglŷn â Hawliau Parcio ym Mrynseilo, Carwe

1450 Ian - Gosod Adroddiad Un Llais Cymru ar Agenda'r Cyfarfod nesaf.

1451 Geraint – Angen scalps yn Heol Mansant

1452 Geoff - Sbwriel yn cael eu taflu dros wal Ysgol Gwynfryn i Dŷ rhif 3 Maesgwyn.

Cyfarfod nesaf:- 6ed o Fehefin 2016 yn 'Stafell y Band, Crwbin am 7.00 o'r gloch.
(Cyfarfod Cynllunio am 6.45 o'r gloch)

Llofnodwyd……. CADEIRYDD

Dyddiad……